# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Cheryl Philpott | Adran Etholiadol: | Sgeti |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Rwyf wedi mynd, ar amserlen rota gyda'm 4 cyd-gynghorydd, i gymorthfeydd yng Nghanolfan Gymunedol Parc Sgeti, Llyfrgell Sgeti a marchnad y ffermwyr a gynhelid yn Ysgol De La Beche.

Euthum hefyd i gyfarfodydd Cymdeithas Preswylwyr Llys Clun; Cymdeithas Cyfeillion De La Beche; Cymdeithas Preswylwyr Sgeti; Cymdeithas Preswylwyr Blackpill, Derwen Fawr a Mayals; Prosiect Cymunedol Dyffryn Clun a chyfarfodydd PACT (Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd) bob yn ail fis.

Ymdriniais â nifer o faterion gwaith achos, er enghraifft cefnogi etholwyr gydag ymholiadau tai, myfyrio dros gefnogaeth gofal, ymholiadau amrywiol lle mae angen cyfeirio i asiantaethau eraill lle y bo'n briodol, llofnodi ffurflenni pasbort a rhoi gwybod am faterion priffordd ac amgylcheddol amrywiol.

Mae gennyf bolisi ‘drws agored’ ac mae etholwyr yn gwybod eu bod yn gallu cysylltu â fi y tu allan i'r cymorthfeydd rheolaidd.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgorau:

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 6 / 8 | 75% |
| Y Cyngor | 16 / 17 | 94% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 5 / 7 | 71% |
| Pwyllgor Cydraddoldeb | 2 / 5 | 40% |
| Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol | 10 / 15 | 67% |
| Panel Llywodraethwyr yr ALI | 5 / 8 | 63% |
| Pwyllgor Cynllunio | 5 / 6 | 83% |
| Pwyllgor Trwyddedu Statudol | 2 / 5 | 40% |
| Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol | 1 / 1 | 100% |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 2 / 3 | 67% |
| **CYFFREDINOL** | **54 / 75** | **72%** |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Anweithgarwch Economaidd | 1 / 1 | 100% |
| Cynhwysiad Addysg | 6 / 6 | 100% |
| Panel Ymchwilio Craffu Gofal Cymdeithasol yn y Cartref | 1 / 6 | 17% |
| Panel Perfformiad Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid | 2 / 4 | 50% |
| Panel Craffu Perfformiad Ysgolion | 8 / 12 | 67% |
| Gweithgor Craffu Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | 1 / 1 | 100% |
| Llywodraethu Ysgol (cyn ymchwiliad) | 0 / 1 | 0 % |
| Panel Ymchwilio Craffu Twristiaeth | 1 / 1 | 100% |
| **CYFFREDINOL** | **20 / 32** | **63%** |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Trefnydd panel a oedd yn trafod pwnc plant sy'n derbyn addysg heblaw am yn yr ysgol (EOTAS) a'r effaith mae'n ei chael ar bobl ifanc, eu teuluoedd a sut gellir gwella deilliannau academaidd a chymdeithasol.

Cadeirydd y llywodraethwyr hefyd yn Ysgol Gynradd Parkland a llywodraethwr yn Ysgol Gyfun yr Esgob Gore lle euthum yn ddiwyd i gyfarfodydd corff llywodraethu yn y ddwy ysgol.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Ynghyd â chynghorwyr ward, cymuned Parc Sgeti, plant lleol, y Gwasanaeth Ieuenctid, Canolfan yr Amgylchedd a swyddogion parciau Cyngor Abertawe, sefydlwyd grŵp – Cyfeillion Parc Parry i ailwampio Parc Parry sydd yng nghanol Parc Sgeti, ond cafwyd gwared ar y cyfarpar chwarae lawer o flynyddoedd yn ôl. Cytunodd y grŵp ar gynllun a chostau ar gyfer cyfarpar newydd yn y parc y cytunodd y cynghorwyr i'w ariannu o'u lwfans amgylcheddol gyda'r canlyniad y gosodwyd y cyfarpar newydd yn ystod mis Gorffennaf 2014.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

12/03/2015 - Rôl Cynghorwyr mewn Cynllunio: Priodoldeb ac Arfer Da
05/08/2014 - Cynnwys y Cyhoedd
03/07/2014 - Hyfforddiant Rhyddid Gwybodaeth
13/05/2014 - Trwyddedu Cyffredinol

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 14 Mai 2015 |